# CYNGOR CAERDYDD
# SWYDD WAG I AELODAU ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

Mae Cyngor Caerdydd eisiau penodi Aelodau Annibynnol newydd i'w Bwyllgor Safonau a Moeseg.

Os ydych chi'n gwerthfawrogi democratiaeth leol, yn ymrwymo i wasanaeth cyhoeddus ac yn meddu ar y gallu i fod yn annibynnol, gwrthrychol a chadarn, efallai mai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl hon.

Mae'r Pwyllgor Safonau a Moeseg yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ar gyfer aelodau etholedig Cyngor Caerdydd a'r chwe Chyngor Cymuned yn ei ardal. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pum Aelod Annibynnol, un cynghorydd cymuned a thri chynghorydd sir. Ar hyn o bryd mae gennym ddwy swydd wag am Aelodau Annibynnol oherwydd bod yr aelodau yn rhoi'r gorau iddi ac un aelod yn dod i ddiwedd eu tymor. Caiff aelodau eu penodi am dymor o bedair i chwe blynedd fel arfer, gyda'r posibilrwydd o ailbenodi am un tymor pedair blynedd pellach.

Ar gyfer y swydd bydd angen i chi fodloni'r canlynol:

- Meddu ar ddiddordeb cyffredinol mewn materion moesegol
- Meddu ar gymeriad da
- Dangos eich bod yn ymrwymo i'r Saith Egwyddor o Fywyd Cyhoeddus (egwyddorion Nolan)
- Dealltwriaeth o lywodraethu mewn corff corfforaethol
- Y gallu i fod yn annibynnol, gwrthrychol a chadarn
- Peidio â meddu ar gysylltiad busnes â'r Cyngor
- Y gallu i ddadansoddi tystiolaeth, meysydd a phroblemau
- Y gallu i gyfathrebu a chyfrannu'n effeithiol mewn pwyllgorau
- Y gallu i fod yn annibynnol yn wleidyddol
- Y gallu i gyfrannu tua 2 i 3 awr y mis (gan gynnwys cyfarfodydd gyda'r nos) i gyflawni gwaith y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor fel arfer yn cyfarfod yn chwarterol a gofynnir i aelodau Annibynnol hefyd fynychu cyfarfodydd Pwyllgor eraill a rhai'r Cyngor i arsylwi achosion ac ymgyfarwyddo â gwaith y Cyngor. Darperir hyfforddiant priodol ar gyfer aelodau er mwyn iddynt ddatblygu'r ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Telir lwfans o £198 y dydd / £99 am hanner dydd, a gellir hawlio costau gofal, teithio a chynhaliaeth.

Am drafodaeth anffurfiol am y ròl cysylltwch a Davina Fiore, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro ar 029 2087 3905

Os ydych yn credu eich bod yn bodloni'r gofynion uchod ac mae diddordeb gennych yn y rôl hon, e-bostiwch mailto:democraticservices@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 2432 i gael pecyn cais, neu ewch i'r wefan www.caerdydd.gov.uk

Ar hyn o bryd nid oes gan aelodau cymunedau lleiafrifol ethnig na phobl anabl gynrychiolaeth ddigonol yn y Pwyllgor, felly mae croeso arbennig i aelodau o'r grwpiau hyn ymgeisio, er y caiff yr holl geisiadau eu trin yn ôl eu teilyngdod.

# CARDIFF COUNCIL
# VACANCY FOR INDEPENDENT MEMBERS OF THE STANDARDS & ETHICS COMMITTEE

Cardiff Council is seeking to appoint new Independent Members to its Standards & Ethics Committee.

If you value local democracy, have a commitment to public service and have the capacity to be independent, objective and strong-minded, then you may be the right person for this role.

The Standards & Ethics Committee performs an important role in promoting and maintaining high standards of conduct of elected members of Cardiff Council and the six Community Councils within its area. The Committee is comprised of five Independent members, 1 community councillor and three county councillors. The Committee is comprised of five Independent members, one community councillor and three county councillors. We currently have two Independent Member vacancies due to members stepping down and one member coming to the end of their term. Appointments are made for a term of between 4 to 6 years, and may be extended for a further 4-year term.

For this role, you will need to:

- Have a general interest in ethical issues
- Be of good character,
- Demonstrate a commitment to the Seven Principles of Public Life (the Nolan principles;selflessness;integrity;objectivity;accountability;openness;honesty;leadership)
- Have an understanding of governance in a corporate body
- Have the capacity to be independent, objective and strong minded
- Have no business connection with the Council
- Be able to analyse evidence, issues and problems
- Be able to communicate and contribute effectively in a committee environment
- Be politically independent
- Be able to commit on average 2 to 3 hours each month (which includes evening meetings) to the work of the Committee

The Committee usually meets on a quarterly basis and Independent members are asked to attend other Council and Committee meetings to observe proceedings and familiarise themselves with the work of the Council. Appropriate training will be provided for members to develop the necessary understanding and skills to effectively discharge their role. An allowance of £198 per day / £99 for half a day is paid, and expenses may be claimed for care, travel and subsistence.

For an informal discussion about the role, please contact: Davina Fiore, Director of Legal and Governance and Monitoring Officer on 029 2087 3905

If you believe you meet the above requirements and are interested in this role, please email democraticservices@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 2432 for an application pack, or go to the website www.cardiff.gov.uk

Members of ethnic minority communities and disabled people are currently under-represented on the Committee, so applications from members of these groups are particularly welcome, although all applications will be considered on merit.